



Papur 1

Ymgynghoriad ar gynigion ynghylch defnyddio arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhagair	3
Y rheswm dros yr ymgynghoriad hwn	3
Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn	3
1. Cyflwyniad	4
1.1 Ein rôl a'n cylch gwaith perthnasol i'r adolygiad	4
1.2 Camau'r adolygiad	4
1.3 Ein defnydd presennol o arfau tanio	4
1.4 Defnyddio tystiolaeth i lywio'r ymgynghoriad hwn.....	4
1.5 Cwmpas cynigion yr ymgynghoriad	5
2. Ein defnydd o arfau tanio i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar ein hamcanion	6
2.1 Dull cyfredol	6
2.2 Crynodeb o'r dystiolaeth.....	6
2.2.1 Dull arall: rheoli ffrwythlondeb.....	6
2.2.2 Dull arall: dyluniad coedwigoedd / gwaharddleoedd	7
2.2.3 Dull arall: gwneud dim, dim rheolaeth.....	7
2.3 Casgliad.....	7
2.4 Argymhellion	7
2.5 Cynnig.....	8
3. Defnydd pobl eraill o arfau tanio i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar amcanion rheoli tir ein cymdogion	8
3.1 Dull cyfredol	8
3.2 Crynodeb o'r dystiolaeth.....	8
3.2.1 Dull arall: gwneud dim, dim rheolaeth.....	8

3.2.2 Dull arall: maglu neu ddal ac yna difa	9
3.2.3 Dull arall: atal cenhedlu imiwnolegol.....	9
3.3 Casgliad.....	9
3.4 Argymhellion.....	10
3.5 Cynnig drafft	10
4. Gosod ein tir ar brydles ar gyfer saethu anifeiliaid hela a gweithgareddau eraill sy'n defnyddio arfau tanio	10
4.1 Dull cyfredol	10
4.2 Crynodeb o'r dystiolaeth.....	11
4.2.1 Dull arall: meini prawf CNC diwygiedig ar gyfer asesu ceisiadau	12
4.2.2 Dull arall: terfynu prydlesau lle bo'n bosibl.....	12
4.3 Casgliadau.....	12
4.4 Argymhellion.....	13
4.5 Cynnig drafft	13
5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	14
6. Sut y byddwn yn defnyddio eich ymateb?	15

Rhagair

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad ffurfiol o'n polisi ar y defnydd o arfau tanio a gweithgareddau saethu ar y tir rydym yn ei reoli, y cyfeirir ato o hyn allan fel 'yr adolygiad'.

Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal oherwydd deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd yng Nghymru ac yn sgil pryderon gan rhanddeiliaid am les ffesantod ar ein tir. Os caiff arfau tanio eu defnyddio ar y tir rydym yn ei reoli, rydym am sicrhau y cânt eu defnyddio am y rhesymau cywir, dan yr amgylchiadau cywir ac yn y ffordd orau posibl.

Rydym yn ymroddedig i weithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru, ac mae'r broses ymgynghori hon yn elfen bwysig o'n dull cyffredinol. Rydym yn gwybod bod gwahanol farnau am y defnydd o arfau tanio, ond ein rôl ni yw mabwysiadu safbwynt cytbwys o'r materion, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn unol â'n rôl a'n cylch gwaith, a'r gofynion deddfwriaethol a pholisi y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw.

Y rheswm dros yr ymgynghoriad hwn

Nod yr ymgynghoriad hwn yw deall eich barn chi am ein cynigion drafft a ph'un a oes unrhyw faterion eraill rydych yn credu y dylem fod yn eu hystyried. Byddwn yn defnyddio hyn i lywio'r gwaith o ddatblygu datganiad sefyllfa ar y defnydd o arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.

Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

Gadewch i ni wybod beth yw eich barn chi trwy gwblhau'r [arolwg ymateb ar-lein](#).

Os nad ydych yn gallu defnyddio'r arolwg ymateb ar-lein, neu os dymunwch gael y ddogfen hon neu'r arolwg ymateb mewn diwyg arall, e-bostiwch:

Adolygiad.Saethu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch 0300 065 3000.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ddydd Mercher 25 Ebrill 2018.

1. Cyflwyniad

1.1 Ein rôl a'n cylch gwaith perthnasol i'r adolygiad

Mae gennym sawl rôl a chylch gwaith lle defnyddir arfau tanio yn unol ag amrywiaeth o ddeddfwriaethau, protocolau, safonau a chanllawiau presennol. Mae'r adolygiad a'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn unig ag arfau tanio a gweithgaredd saethu cysylltiedig â'n rôl a'n cylch gwaith fel rheolwr tir.

Rydym yn rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sy'n 128,000 o hectarau ar ran Gweinidogion Cymru, 54 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a thir cysylltiedig ag asedau rheoli perygl llifogydd. Fel rheolwr tir, rydym yn defnyddio arfau tanio i gyfyngu ar y niwed gan rywogaethau gwylt i amddiffyn ein gallu i gyflawni ein hamcanion rheoli tir. Mae hyn yn cynnwys gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig a rhai â blaenoriaeth, a chynnal capasiti cynhyrchu'r coetiroedd rydym yn eu rheoli. Rydym hefyd yn ystyried cynigion gan bobl eraill am weithgareddau sy'n cynnwys arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.

1.2 Camau'r adolygiad

Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn sawl cam.

- **Cam 1:** [Cais am Dystiolaeth](#) (wedi cau ar 30 Ebrill 2017).
- **Cam 2:** [Synthesis Tystiolaeth](#) (Medi 2017).
- **Cam 3:** [Sicrwydd annibynnol](#) o'n Synthesis Tystiolaeth (Tachwedd 2017).
- **Cam 4:** Ymgynghoriad ar gynigion (wedi'i lansio fis Ionawr 2018).
- **Cam 5:** Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (Ebrill 2018).
- **Cam 6:** Cyhoeddi datganiad sefyllfa (Gwanwyn 2018).

1.3 Ein defnydd presennol o arfau tanio

Caiff arfau tanio eu defnyddio at dri diben bras ar y tir rydym yn ei reoli:

- Caiff arfau tanio eu defnyddio gennym i reoli rhywogaethau gwylt sy'n effeithio ar ein hamcanion;
- Caiff arfau tanio eu defnyddio gan bobl eraill i reoli rhywogaethau gwylt sy'n effeithio ar amcanion rheoli tir ein cymdogion;
- Caiff ein tir ei brydlesu ar gyfer saethu anifeiliaid hela a gweithgareddau eraill sy'n defnyddio arfau tanio.

Mae'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn gysylltiedig â'r tri diben bras hyn.

1.4 Defnyddio tystiolaeth i lywio'r ymgynghoriad hwn

Ym mis Chwefror 2017, gwnaethom [gais cyhoeddus am dystiolaeth](#) (cam 1) i lywio ein hadolygiad. Gwnaethom geisio tystiolaeth gan bartion â diddordeb ynghylch y defnydd o arfau tanio i'n helpu i brofi a yw saethu'n cyflawni ein diben, yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy¹, ac a yw'n cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y nodau llesiant).² Buom yn casglu tystiolaeth am

¹ Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn [ein llyfryn](#) sy'n cyflwyno'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, ac ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gallwch ddysgu am ein gwaith o gyflawni'r nodau llesiant ar [ein gwefan](#) a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

12 wythnos, a derbyniwyd 36 o gyflwyniadau. Roedd y rhain yn amrywio o ddatganiadau barn byr i bapurau a oedd yn cyfeirnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid.

Derbyniwyd dros 220 darn o dystiolaeth gymwys. Ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd gennym ni ac o'n cofnodion ein hunain, ystyriwyd mwy na 250 darn o dystiolaeth. Gwnaeth staff y prosiect adolygu a phanel o arbenigwyr ar draws y sefydliad asesu'r cyflwyniadau yn erbyn egwyddorion [Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r nodau llesiant](#), yn ogystal ag ystyried y lefelau hyder y gellid eu cysylltu â darnau unigol o dystiolaeth.

Ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth, gwnaethom gofnodi [Synthesis Tystiolaeth](#) ar ffurf adroddiad (cam 2, papur 2) yr ydym yn ei gyhoeddi yn gyfochr â'r ymgynghoriad hwn.

Mae ein proses adolygu a'n hadroddiad Synthesis Tystiolaeth wedi bod yn destun sicrwydd allanol annibynnol (cam 3, [papur 4](#)), i'n galluogi i ddangos yn gadarn fod ein hadolygiad wedi gwerthuso'n wrthrychol y dystiolaeth a gyflwynwyd. Gan gyfeirio at ein Synthesis Tystiolaeth a'r casgliadau y daethom iddynt, dywedodd yr Athro Garry Marvin o Brifysgol Roehampton a'r Doctor Sam Hillyard o Brifysgol Durham:

"Ar y cyfan, rydym yn hyderus, o'r dystiolaeth ddogfennol, fod yr adolygiad wedi bod yn deg a thryloyw, a'i fod yn cynrychioli cyfrif/gwerthusiad rhesymegol o'r cyflwyniadau. Rydym hefyd yn fodlon fod dull sgorio/graddio CNC o'r cyflwyniadau, o'r rhai mwyaf goddrychol/personol i ddadansoddiadau academaidd trylwyr, wedi bod yn deg. Byddem ni wedi gwerthuso'r cyflwyniadau mewn modd tebyg. Rydym yn cytuno â'r lefelau hyder mae CNC wedi'u cysylltu â'r cyflwyniadau. Nid oeddem yn gallu synhwyro unrhyw ragfarn ymddangosiadol yn y modd y trosglwyddwyd y cyflwyniadau yn yr adroddiad."

Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a drafodir yn adroddiad y Synthesis Tystiolaeth yn ymwneud â gweithgareddau saethu mewn amrediad eang o sefyllfaoedd, ac nid yw'n benodol i dir dan berchenogaeth gyhoeddus a'n hamgylchiadau ni. O'r herwydd, rydym wedi cynhyrchu papur, *Cymhwyso'r Dystiolaeth at Ystad CNC*, a gyhoeddir yn gyfochr â'r ddogfen ymgynghori hon ([papur 3](#)). Mae papur 3 yn ystyried y dystiolaeth ehangach mewn perthynas â'r tir rydym yn ei reoli, er mwyn rhoi cyd-destun i'r asesiad o'r defnydd o arfau tanio oherwydd gall ymwneud â hyrwyddo ein diben cyfreithiol a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni'r nodau llesiant. Mae'r papur hefyd yn cynnwys argymhellion yr adolygiad sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, a'r argymhellion hyn yw sail y cynigion drafft a geir yn y ddogfen ymgynghori hon (cam 4, papur 1).

1.5 Cwmpas cynigion yr ymgynghoriad

Rhennir cynigion yr ymgynghoriad yn dri – un ar gyfer pob un o'r prif ddibenion lle defnyddir arfau tanio ar hyn o bryd, fel y manylir yn adran 1.3.

Ar gyfer pob diben, byddwn yn:

- Egluro beth rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a pham rydym yn ei wneud;
- Crynhoi'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno a'i hadolygu mewn perthynas â dewisiadau cyfredol ac amgen, a'r casgliadau y daethpwyd iddynt;
- Manylu ar argymhellion yr adolygiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd;

- Amlinellu cynnig drafft ac ystyried hyn mewn perthynas ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni'r nodau llesiant.

2. Ein defnydd o arfau tanio i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar ein hamcanion

2.1 Dull cyfredol

Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio arfau tanio ar dir rydym yn ei reoli i gadw rheolaeth ar rywogaethau gwyllt, yn bennaf ceirw ond weithiau rhywogaethau eraill megis mincod. Mae sawl rheswm dros orfod rheoli'r rhywogaethau gwyllt hyn, gan gynnwys:

- Er mwyn amddiffyn coed sy'n tyfu rhag brigbori;
- Er mwyn diogelu cynefinoedd gwarchoddedig;
- Er mwyn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Y nod yw lleihau effeithiau negyddol i lefel lle gellir cynnal y buddion o'n hadnoddau naturiol (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy). Gallai'r buddion hyn gynnwys adfer natur, cynhyrchu pren, atafael carbon neu nwyddau a gwasanaethau eraill.

Mae arfau tanio yn ffurf effeithiol o reoli ar gyfer mamaliaid mawr am ei fod yn ddull penodol i rywogaeth ac mae'r risg o effeithio ar rywogaethau nad ydynt yn dargedau yn isel. Gellir dethol unigolion o fewn rhywogaeth yn ôl arfer gorau.

Caiff arfau tanio eu defnyddio gan ein staff tra hyfforddedig sy'n cymhwyso safonau arfer gorau er mwyn sicrhau lles anifeiliaid. Mae ein gweithdrefnau mewnol yn hyrwyddo'r defnydd o dechnegau rheoli eraill yn ogystal ag arfau tanio i leihau'r effeithiau o rywogaethau gwyllt, gan gynnwys mesurau dylunio coedwig a rheoli'r safle sy'n strategol a hirdymor. Mae egwyddorion rheoli bywyd gwyllt yn foesegol³ yn darparu fframwaith ar gyfer nodi'r angen i gadw trefn a rheolaeth, gan sicrhau bod dewisiadau eraill yn lle rheolaeth farwol a chyfuniadau o gamau eraill yn cael eu hystyried er mwyn llwyddo i leihau'r effeithiau ar gyflawni amcanion safle.

2.2 Crynodeb o'r dystiolaeth

Yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi'i hadolygu, mae nifer o ddewisiadau eraill posibl yn lle ein dull presennol.

2.2.1 Dull arall: rheoli ffrwythlondeb

Mae dulliau atal cenhedlu mewn mamaliaid gwyllt ar lefel unigol yn bosibl, ond mae llwyddiant ar lefel y boblogaeth, yn arbennig os mai dyma'r unig ddull o reoli'r boblogaeth, yn annhebygol. Mae hyn oherwydd effeithiolrwydd a chostau darparu'r eitemau atal cenhedlu a deinameg y boblogaeth. Yn ystod treialon, cyflwynwyd dulliau atal cenhedlu trwy roi pigadau â llaw neu drwy saethu dartiau'n agos (gan ddefnyddio arfau tanio). Mae cyflwyno dulliau atal cenhedlu o bellter hwy'n annibynadwy ac nid yw abwyd yn benodol i rywogaeth felly nid yw'n debygol o fod yn opsiwn ar gyfer sicrhau rheolaeth effeithiol ar lefel y boblogaeth.

³ Dubois et al (2017), *International consensus principles for ethical wildlife control*. Ceir mynediad at Conservation Biology. doi:10.1 yn <http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cobi.12896/full>

2.2.2 Dull arall: dyluniad coedwigoedd / gwaharddleoedd

Gall dewisiadau gwaharddleoedd (gan ddefnyddio ffensys) arwain at bwysau pori'n cael eu hailgyfeirio at ardaloedd eraill yn hytrach na lleihau'r pwysau cyffredinol. Nid yw newid dewisiadau rheoli dyluniad coedwigoedd yn debygol o fod yn briodol i amddiffyn rhywogaethau â blaenoriaeth, ac efallai na fydd yn bodloni'r amcanion rheoli ar gyfer amddiffyn rhywogaethau, gallu cynhyrchu, neu gynnal cynefinoedd brodorol.

2.2.3 Dull arall: gwneud dim, dim rheolaeth

Mae'r blaenburi, y pori a'r niwed i risgl a achosir gan geirw a llysysorion eraill yn effeithio'n negyddol ar hyfywedd economaidd sectorau coedwigaeth ac amaethyddol Cymru, a gwydnwch nifer o ecosystemau pwysig. Heb gadw rheolaeth ar hyn, caiff y buddion economaidd posibl i Gymru eu lleihau trwy allbwn amaethyddol colledig, costau stocio coed uwch, ac ansawdd a gwerth pren is.

Mae effeithiau poblogaethau ceirw uchel mewn coetiroedd yn cynnwys lleihad mewn amrywiaeth fflora coetir, colli haenau llwyni gan arwain at lai o amrywiaeth strwythurol, a rhwystro coed sydd wedi adfywio rhag goroesi i greu haenau canopi. Gall y golled ganlyniadol mewn cyfleoedd cynefin ar gyfer pryfed ac adar leihau gwerth bioamrywiaeth coetir ymhellach.

Canfu astudiaethau o brosiectau dad-ddofi tir, megis y rheiny yn yr Iseldiroedd, fod planhigion prenaidd wedi'u cyfyngu oherwydd presenoldeb llysysorion heb eu rheoli, a bod coetir wedi'i droi'n laswelltir. Roedd y niferoedd mawr o lysysorion yn golygu bod y gadwyn fwyd yn dod yn ffactor cyfyngol ar gyfer pob poblogaeth lysysol yn absenoldeb unrhyw fesurau rheoli poblogaeth gweithredol. Yn ystod rhai blynyddoedd, gwnaeth cyfyngiadau'r gadwyn fwyd arwain at gyfraddau marwolaethau gaeafol uchel a chodi pryderon o ran lles anifeiliaid. Bydd peidio â rheoli'r effeithiau negyddol ar rywogaethau â blaenoriaeth yn arwain at ostyngiadau mewn poblogaeth, gan beri perygl posibl o'u colli'n lleol neu'n genedlaethol.

2.3 Casgliad

Nid yw dewisiadau eraill yn lle ein dull presennol o reoli effeithiau rhywogaethau gwyllt yn cynnig yr un lefel o hyder y bydd ein hamcanion rheoli tir yn cael eu cyflawni.

2.4 Argymhellion

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylem barhau i reoli effeithiau negyddol rhywogaethau gwyllt ar y tir rydym yn ei reoli am ei fod yn hanfodol i gyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Wrth bennu ai rheolaeth farwol yw'r dull mwyaf priodol o reoli, dylai cynlluniau ddangos yr angen i reoli, ystyried opsiynau eraill i osgoi neu leihau'r effeithiau ac ystyried pa mor gymdeithasol dderbyniol yw'r dull yn lleol.
- Os yw rheolaeth farwol yn angenrheidiol, dylai fod yn rhan o gynllun rheoli hirdymor sydd â chanlyniadau clir a chyraeddadwy ac sy'n ystyried materion cysylltiedig â lles anifeiliaid.
- Dylem gynnal y gallu i gyflawni gwaith rheoli ag arfau tanio trwy weithwyr cymwys, sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

2.5 Cynnig

Dylai'r defnydd o arfau tanio barhau i fod yn opsiwn sydd ar gael i CNC wrth reoli effeithiau negyddol rhywogaethau gwyllt ar y tir mae'n ei reoli i gyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Dyma'r modd y byddai'r cynnig hwn yn cyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni'r nodau llesiant:

- Mae'r lefel y caiff rhywogaethau gwyllt eu rheoli'n seiliedig ar dystiolaeth o'r effeithiau ar ein hamcanion, ac fe'i haddasir ar ôl monitro ac adolygu. Mae'r gwaith o reoli rhywogaethau gwyllt yn effeithiol yn mynnu camau ar raddfa lefel tirwedd sy'n briodol i boblogaeth ac ecoleg y rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n cael eu rheoli, ac mae hyn yn aml yn cynnwys cydweithio rhwng rheolwyr tir ac eraill.
- Mae'r gwaith o reoli effeithiau rhywogaethau gwyllt yn mynd i'r afael â'r nod *Cymru gydnherth* wrth gynnal bioamrywiaeth ac ecosystemau gweithredol i gynnal gwydnwch. Yn ogystal, mae'n cyfrannu at y nod *Cymru lewyrchus* lle mae buddion ecosystemau iach yn sicrhau buddion economaidd megis pren a chyflogaeth. Mae darparu cig carw, sy'n ddewis braster isel, yn cyfrannu at y nod *Cymru iachach*.

3. Defnydd pobl eraill o arfau tanio i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar amcanion rheoli tir ein cymdogion

3.1 Dull cyfredol

Gallai rhai o'r rhywogaethau gwyllt sydd ar y tir rydym yn ei reoli beri niwed i dda byw, cnydau neu safleoedd cadwraeth tîrfeddianwyr cyfagos.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi caniatadau i dirfeddianwyr cyfagos, neu grwpiau sy'n cynrychioli eu buddiannau, ddod ar dir CNC i gynnal gwaith rheoli er mwyn rhwystro neu leihau niwed difrifol y byddai rhywogaethau gwyllt fel arall yn ei achosi. Mae hyn yn bennaf i reoli llwynogod er mwyn rhwystro niwed i dda byw, trwy hela'r anifail a'i ladd ag arf tanio.

Nid ydym yn ystyried rhoi'r fath ganiatadau ond ar y tir rydym yn ei reoli lle mae tîrfeddiannwr cyfagos mewn perygl o golli neu'n cael colledion o ganlyniad i ysglyfaethu gan rywogaethau gwyllt. Cyn rhoi caniatâd, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddigonol gan y tîrfeddiannwr cyfagos i ddangos bod y fath risg yn bodoli.

3.2 Crynodeb o'r dystiolaeth

Yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi'i hadolygu, mae nifer o ddulliau eraill yn lle ein dull cyfredol.

3.2.1 Dull arall: gwneud dim, dim rheolaeth

Mae astudiaethau yn y DU yn awgrymu bod canran yr ŵyn a gollir oherwydd ysglyfaethu gan llwynogod yn isel, gyda marwolaethau ar gyfradd lai na 2%. Fodd bynnag, mae hyder yn yr astudiaethau sydd ar gael wedi'i gyfyngu oherwydd yr anhawster i ddod o hyd i

sefyllfa lle nad yw gwaith rheoli llwynogod yn cael ei gynnal i weithredu fel safle rheoli. Mae hyn am fod gwaith rheoli llwynogod yn digwydd yn helaeth. Mae manau y cydnabyddir eu bod yn dioddef lefelau uwch o ysglyfaethu gan llwynogod ac enghreifftiau lleoledig o lefelau uchel o ysglyfaethu'n effeithio ar incwm ffermio ac felly'r economi wledig, yn arbennig yn ucheldiroedd Cymru.

Ar safleoedd priodol, gall rheoli ysglyfaethwyr (llwynogod) gynnig buddion cadwraeth pwysig ar gyfer rhywogaethau yn y coetir ei hun, megis cyfflyogod a giachod, yn ogystal â'r rheiny mewn cynefinoedd cyfagos. Gall adar sy'n nythu ar y ddaear fod yn arbennig o fregus i ysglyfaethu, ac mae nifer ohonynt yn dirywio yng Nghymru yn ogystal ag ar draws y DU. Pan fo coedwig yn gyfochr â mynydd, rhos a rhostir, mae'n bosibl y bydd adar sy'n nythu ar y ddaear, megis gylfiniriaid a chwtiaid aur, yn cael budd o bwysau ysglyfaethu is. Ar laswelltir sy'n agos at goetir, efallai y bydd cornicyllod bridiol neu iachod yn cael budd o weithgarwch rheoli llwynogod a gyflawnir yn y bloc coedwigaeth cyfagos.

3.2.2 Dull arall: defnyddio magl neu drap ac yna lladd

Mae côd ymarfer gorau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod yn nodi fod defnyddio maglau yn ffordd o ddal anifeiliaid yn hytrach na'u lladd ac mai'r dull cydnabyddedig o ladd llwynogod yn ddi-boen yw drwy eu saethu â dryll priodol. O'r herwydd mae'n dal yn ofynnol defnyddio dryll i ladd yr anifeiliaid pan ddefnyddir maglau a thrapiau i'w dal ac yn yr amgylchiadau hyn, nid ydynt yn cynnig dewis arall yn lle defnyddio drylliau. Dywed y côd hefyd y dylid defnyddio maglau yn unig pan nad oes dulliau rheoli eraill ar gael.

3.2.3 Dull arall: atal cenhedlu imiwnolegol

Gellir darparu dulliau atal cenhedlu imiwnolegol trwy ddau brif fecanwaith; naill ai trwy ddefnyddio dart y mae'n bosibl na fydd yn chwistrellu'n gywir, neu trwy ddal anifail mewn cawell ac yna'i chwistrellu, sy'n ddrud ac efallai na fydd yn effeithiol. Mae defnyddio dulliau atal cenhedlu imiwnolegol yn annhebygol o fod yn llwyddiannus wrth leihau poblogaeth, yn hytrach gellir defnyddio'r dulliau hyn i gynnal lefel poblogaeth ar ôl defnyddio dulliau eraill i'w lleihau. Gwelwyd bod rhaglenni dros amserlenni hir yn lleihau'r boblogaeth, ond yn y tymor byr i ganolig mae'r effeithiau'n parhau. Er y gallai defnyddio dulliau atal cenhedlu imiwnolegol fod yn bosibl mewn llwynogod⁴, byddai'n mynnu lefelau anffrwythlonder rhwng 65% ac 80% sy'n annhebygol o gael eu cyflawni.

3.3 Casgliad

Mae defnyddio dulliau eraill yn lle ein dull presennol yn llai tebygol o gyflawni'r canlyniadau dymunedig.

Mae rheoli anifeiliaid trwy ddefnyddio arfau tanio'n osgoi'r perygl o effeithio ar anifeiliaid nad ydynt yn dargedau. Gall dulliau cyfreithiol eraill effeithio'n anfwriadol ar rywogaethau eraill. Mae defnyddio dulliau atal cenhedlu imiwnolegol ar famaliaid mawr yn anodd ac nid yw'n debygol o fod yn effeithiol heb ymrwymiad ac adnoddau hirdymor. Nid yw dulliau eraill, megis gwenwyno, yn gyfreithlon.

⁴ Saunders et al (2002). *The effects of induced sterility on the territorial behaviour and survival of foxes*. Journal of Applied Ecology 39:56-66

3.4 Argymhellion

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylem barhau i ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli anifeiliaid gwyllt gan ddefnyddio arfau tanio.
- Rhaid i geisiadau am ganiatadau i gynnal gwaith rheoli anifeiliaid ar y tir rydym yn ei reoli gynnwys cyfiawnhad mai diben y gweithgaredd yw rhwystro neu leihau niwed difrifol y byddai'r anifail gwyllt fel arall yn ei achosi.

3.5 Cynnig drafft

Dylai CNC barhau i ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt gan ddefnyddio arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.

Dyma'r modd y byddai'r cynnig drafft yn cyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni'r nodau llesiant:

- Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn cysylltu'r gwaith o reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar amcanion rheolwyr tir â'r nod *Cymru lewyrchus*, o ran hyfywedd hirdymor ffermio a gwydnwch yr economi a chymunedau gwledig. Trwy gefnogi diwydiant cig oen Cymru, rydym hefyd yn lleihau ein lefelau mewnfario cig sy'n cefnogi'r economi ac yn lleihau ôl troed carbon Cymru.
- Mae amddiffyn rhywogaethau adar bridio â blaenoriaeth yn gwella gwydnwch y poblogaethau hynny ac felly'n cyfrannu at y nod *Cymru gydnerth*. Mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae ceisiadau'n asesu'r raddfa a'r risgiau cysylltiedig â'r gweithgaredd arfaethedig at ddibenion atal neu leihau niwed difrifol y byddai'r rhywogaethau gwyllt fel arall yn ei achosi. Gellir ystyried, felly, fod y gweithgaredd yn gam gweithredu ataliol o dan egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

4. Gosod ein tir ar brydles ar gyfer saethu anifeiliaid hela a gweithgareddau eraill sy'n defnyddio arfau tanio

4.1 Dull cyfredol

Rydym am i gymunedau a mentrau cymdeithasol gael y budd mwyaf posibl o'r tir rydym yn ei reoli. Rydym yn ystyried ceisiadau am amrywiaeth o ddigwyddiadau, gweithgareddau, prosiectau a mentrau i alluogi pobl Cymru i wneud y gorau o'r tir rydym yn ei reoli. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys saethu adar hela ar sail gyfyngedig iawn.

Ar hyn o bryd, rydym yn prydlesu pedair ardal o goetir ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sy'n rhychwantu 440 hectar, i drydydd partïon at ddibenion saethu ffermantod. Mae'r prydlesau fel arfer ar gyfer cyfnod rhwng tair a phum mlynedd, ond ar hyn o bryd maent ar sail dreigl adnewyddu blynyddol, tra'n disgwyl canlyniad yr adolygiad hwn. Yn 2016, gwnaethom ennill oddeutu £6,000 o incwm o'r prydlesau hyn.

Rhaid i bob gweithgaredd saethu gael ei reoli yn unol â safonau arfer gorau gyda chynllun rheoli y cytunwyd arno, gan gynnwys mesurau diogelwch cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys

cydymffurfio â [Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig\(2013\)](#). Nid oes yr un o'r prydlesau'n rhwystro mynediad cyhoeddus neu ein buddiannau ein hunain wrth reoli'r tir, er enghraifft cynhyrchu pren. Rydym yn caniatáu i ddeiliaid prydlesau gadw fferantod mewn corllannau mewn lleoliadau y cytunir arnynt o fewn eu hardaloedd prydles cyn eu rhyddhau. Mae'r cofnodion yn dangos y bu i oddeutu 6,500 o fferantod gael eu rhyddhau yn 2016, sef dwysedd o lai na 15 aderyn yr hectar. Mae hyn yn gyfran fach iawn o nifer yr adar yr adroddwyd y bu iddynt gael eu rhyddhau ledled y DU, gan ddangos bod prydlesau ar gyfer gweithgareddau saethu ar dir rydym yn ei reoli'n ddibwys. Wrth reoli adar mewn corllannau, rhaid dilyn Cod Ymarfer er Lles Adar Hela a Fegir at Ddibenion Helwriaeth (2010) Llywodraeth Cymru. Dylid nodi nad yw bridio adar hela'n digwydd ar ein tir a'i fod, o'r herwydd, y tu hwnt i'n dylanwad uniongyrchol. Nid oes gennym bwerau i arolygu'r gwaith bridio neu fagu adar hela sy'n digwydd mewn mannau eraill.

Mae ardaloedd o dir a reolir gennym, er enghraifft blaenau traethau, lle mae eithriad neu amod ynghlwm wrth y brydles wreiddiol sef y byddai'r hawliau saethu'n parhau i gael eu caniatáu. Rhaid cwblhau cynllun rheoli adar hela cyn y caniateir unrhyw saethu. Mae wyth safle wedi'i osod gyda chyfanswm o 4,881 hectar. Arferir yr hawliau ar bob un o'r wyth safle, ond ni chaniateir saethu ar oddeutu 1,120 hectar o'r ardal hon oherwydd buddiannau cadwraeth natur.

Mae rhannau sylweddol o'r tir rydym yn ei reoli lle nad yw CNC yn rheoli'r hawliau saethu. Ni allwn gadw deiliaid yr hawliau hyn rhag eu harfer. O'r herwydd, mae'r ardaloedd hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

Mae budd economaidd i Gymru oherwydd gweithgareddau saethu. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau cyhoeddus yn cynnwys yr holl weithgareddau saethu ac nid yw'n bosibl cysylltu'r dystiolaeth hon yn uniongyrchol â phrydlesau ar y tir rydym yn ei reoli. Mae cofnodion cysylltiedig â'n hardaloedd prydles yn rhoi arwydd o gyfraniad cadarnhaol at yr economi leol. Mae asesu cyfraniad gweithgareddau saethu at gydlynoldeb a llesiant y cymunedau sy'n debygol o elwa neu gael eu heffeithio gan y fath weithgaredd yn gymhleth a drud. Nid yw'r safbwyntiau croes y mae gan lobïau pro- a gwrth-hela, a'r diffyg gwaith ymchwil mewn rhai meysydd, yn ein galluogi i ddod i gasgliadau gwrthrychol ynghylch cyfraniad hela at adeiladu cyfalaf cymdeithasol neu gyfraniad rhyngweithio cymdeithasol at lesiant cyffredinol.

Mae hela adar yn mynnu nad yw nifer yr adar a gymerir ar lefel anghynaliadwy. Mae adroddiadau blynyddol am y niferoedd a'r rhywogaethau a gymerwyd yn helpu i fonitro'r agwedd hon, ac argymhellir cynlluniau rheoli i gyfrannu at gynaliadwyedd poblogaethau. Mae enghreifftiau o gyfyngiadau gwirfoddol i gynnal poblogaeth rhywogaeth.

Rydym hefyd yn derbyn nifer fach o geisiadau am weithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio megis saethu targedau, meysydd tanio a saethu colomennod clai. Caiff y rhain eu hasesu fesul achos.

4.2 Crynodeb o'r dystiolaeth

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd gennym, nodwyd y problemau canlynol cysylltiedig â'n dull cyfredol a dulliau eraill posibl.

4.2.1 Dull arall: meini prawf CNC diwygiedig ar gyfer asesu ceisiadau

- Byddai'r dull yn cynnwys datblygu meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd cynigion ac adnewyddiadau prydesau i sicrhau eu bod yn cyfannu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a bod penderfyniadau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Yn ymarferol, gallai hyn olygu ein bod yn ailystyried yr ardaloedd o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd ar brydles, er enghraifft i osgoi safleoedd dynodedig a safleoedd sensitif eraill, a gallai olygu ein bod yn cynnwys amodau mewn cytundebau prydes i sicrhau bod stoc mewn corlannau ar ein tir yn dod o gyflenwyr sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru.
- Mae effeithiau ar fioamrywiaeth wrth ryddhau ffesantod, gyda buddion ar gyfer rhai grwpiau o rywogaethau ac anfanteision ar gyfer rhai eraill. Nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu casgliad eglur ynghylch yr effeithiau, ond mae'n amlwg fod rheoli coetir yn weithredol a glynu wrth yr argymhellion o gadw llai na 700 aderyn fesul hectar mewn corlan yn angenrheidiol i sicrhau nad oes effaith negyddol gyffredinol ar fioamrywiaeth.
- Mae dwyseddau stocio mewn corlannau, ynghyd â chamau rheoli cynefin rheolaidd a gynllunnir yn allweddol wrth bennu a yw presenoldeb ffesantod mewn coetir yn peri effaith niweidiol, ddiniwed neu gadarnhaol ar fioamrywiaeth y coetir. Mae nifer o'r camau a ddefnyddir i wneud lles i ffesantod mewn coetir, megis teneuo, annog haenau daear a llwyni, rheoli cyrion a rheoli rhodfeydd, yr un fath â'r camau a argymhellir gan arferion rheoli coetir da (megis [Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig](#)) ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch unrhyw goetir.

4.2.2 Dull arall: rhoi'r gorau i ddefnyddio ein tir ar gyfer y gweithgareddau hyn drwy derfynu prydesau lle bo'n bosibl

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r gweithgaredd saethu gan eraill a ganiateir ar hyn o bryd, mae'n rhesymol awgrymu y gallai terfynu neu roi'r gorau i brydesau:

- Arwain at golled incwm ar gyfer y cymunedau, unigolion a busnesau dan sylw (gan gynnwys darparwyr gwasanaeth megis gwestai lleol), gan leihau'r budd economaidd (a chymdeithasol) cyffredinol i Gymru;
- Lleihau dewisiadau hamdden ar gyfer rhai pobl, a allai effeithio ar eu hiechyd a lles, er bod nifer o weithgareddau saethu sy'n cael eu rheoli ar dir preifat y gellid eu hystyried fel dewis arall;
- Arwain at ornestau saethu'n digwydd ar safleoedd mwy sensitif mewn mannau eraill;
- Cynyddu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn coetiroedd lle mae prydesau wedi cael eu tynnu yn ôl. Mae hyn yn seiliedig ar brofiad rheolwyr CNC o lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn coedwigoedd gydag a heb brydesau saethu.

4.3 Casgliadau

Gall gweithgareddau cysylltiedig â saethu anifeiliaid hela, yn bennaf gornestau saethu ffesantod a hela adar, effeithio ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall cynnydd mewn niferoedd adar mewn coetiroedd effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd brodorol trwy gystadleuaeth, ysglyfaethu a chyfoethogiad. Gall y gwaith rheoli sy'n gysylltiedig â rhyddhau ffesantod gael effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth. Gall cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gydbwyso effeithiau trwy

addasu dulliau rheoli i leihau effeithiau negyddol ac annog effeithiau cadarnhaol, gan gymryd mesurau ataliol i leihau'r perygl o glefydau a defnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau. Mae hela adar yn mynnu dulliau rheoli addasol, er enghraifft monitro niferoedd rhywogaethau ac addasu nifer yr adar a gymerir mewn ymateb i'r dystiolaeth hon neu beidio â chymryd rhywogaethau penodol.

Nid yw'r cydbwysedd cyffredinol o fuddion yn erbyn effeithiau negyddol yn bendant. Mae effeithiau ar gynefinoedd sensitif neu gynefinoedd gwerth uwch yn fwy nag ar safleoedd â bioamrywiaeth gwerth is.

Byddai'r dull arall o adolygu meini prawf CNC ar gyfer asesu'r effeithiau posibl ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ar y nodau llesiant yn hwyluso cyfleoedd i ddarparu gweithgareddau sydd, at ei gilydd, yn darparu buddion o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant. Gallai hyn gynnwys gweithgaredd saethu nad yw'n farwol megis saethu targedau, meysydd tanio a saethu colomennod clai.

Gallai terfynu prydlesau heb asesu effeithiau'r gweithgaredd ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant arwain at golli rhywfaint o fuddion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a buddion eraill a ddarperir ar hyn o bryd.

4.4 Argymhellion

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Dylem barhau i ystyried prydlesu tir ar gyfer saethu fasantod a hela adar. Wrth ystyried ceisiadau ac adnewyddiadau, dylid asesu effeithiau'r gweithgaredd ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant. Dylai lleoliad a graddfa'r gweithgaredd ystyried y potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar ecosystem y coetir a rhywogaethau fflora a ffawna lleol, ond hefyd agweddau cymdeithasol buddiol cydlynid cymunedol lleol a'r buddion economaidd posibl. Dylid llunio a gweithredu cynlluniau rheoli.
- Dylai deiliaid prydlesau allu dangos eu bod yn prynu stoc gan sefydliadau sy'n dilyn Cod Ymarfer er Lles Adar Hela a Fegir at Ddibenion Helwriaeth (2010) Llywodraeth Cymru (neu god y llywodraeth berthnasol os prynir y tu allan i Gymru).
- Dylai'r modd y rheolir adar mewn corlannau dal a rhyddhau ar dir rydym yn ei reoli ddilyn Cod Ymarfer er Lles Adar Hela a Fegir at Ddibenion Helwriaeth (2010) Llywodraeth Cymru.
- Dylai deiliaid prydlesau ddangos sut y mae perygl clefydau'n cael ei leihau trwy lynu wrth y codau ymarfer perthnasol, yn arbennig ar gyfer lleoli corlannau dal a rhyddhau yn y lleoliad gorau a glynu wrth y dwyseddau stocio argymelledig.

4.5 Cynnig drafft

Dylai CNC barhau i ystyried prydlesu tir at ddibenion saethu fasantod, hela adar a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio. Wrth ystyried ceisiadau, dylid asesu effeithiau'r gweithgaredd ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ar y nodau llesiant. Dylai lleoliad a graddfa'r gweithgaredd ystyried y potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar ecosystem y coetir a rhywogaethau fflora a ffawna lleol, ond

dylai hefyd ystyried agweddau cymdeithasol buddiol cydlyniad cymunedol lleol a'r buddion economaidd posibl. Dylid llunio a gweithredu cynlluniau rheoli, a dylai fod yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau ddangos eu bod yn glynu wrth godau ymarfer perthnasol. Bydd CNC yn parhau i asesu cydymffurfiaeth gweithgareddau a ganiateir â Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.

Dyma'r modd y byddai'r cynnig drafft yn cyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Mae saethu gan drydydd partïon wedi'i gysylltu â sawl nod llesiant. Mae'n cyfrannu at y nodau *Cymru lewyrchus* a *Chymru gydnerth*, trwy ddarparu cyflogaeth uniongyrchol ar gyfer darparwyr gwasanaeth a chefnogi busnesau cysylltiedig megis gwestai. Byddai'r buddion hyn yn cael eu cynnal gan y cynnig hwn.
- Bydd y cynnig yn cyfrannu at y nod *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*, oherwydd bydd yn sicrhau bod poblogaethau adar mudol yn cael eu hystyried wrth ymgymryd â gweithgareddau saethu sy'n cynnwys adar gwyllt. Mae'r moratoriwm y cytunwyd arno ynghylch saethu gwyddau talcenwyn yr Ynys Las yn dangos y cyfrifoldeb hwn.
- Mae gwahanol randdeiliaid wedi adrodd am bwysigrwydd saethu i gymunedau gwledig a rôl saethu yn niwylliant Cymru. Mae llai o broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar safleoedd a brydleswyd ar gyfer saethu ar sail profiad rheolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru o lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y goedwig p'unai gyda neu heb brydlesau saethu.
- Mae buddion iechyd cadarnhaol posibl ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau, ac mae bwyta helgig, cig braster isel, hefyd yn gadarnhaol.
- Mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, dylai cynlluniau rheoli gornestau saethu gynnwys gofynion monitro, adrodd ac adolygu i alluogi newidiadau mewn camau rheoli i helpu i sicrhau bod poblogaethau'n gynaliadwy. Dylai rheolwyr gornestau saethu hefyd orfod dangos eu bod yn glynu wrth arfer gorau, er enghraifft mewn perthynas ag iechyd a magwraeth adar, trwy ddilyn codau ymarfer cydnabyddedig.
- Dylid asesu'n ofalus hefyd maint yr ardaloedd a brydlesir a sicrhau y byddent yn briodol ar gyfer y gweithgaredd, lleoliad, math o gynefin a sensitifrwydd. Ar ben hynny, byddai prydlesau'n parhau i fod ar osod ar sail tymor canolig i ganiatáu adolygiad parhaus o'r buddion a'r effeithiau.

5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Diolch am ddarllen y ddogfen ymgynghori hon. Rhowch wybod i ni beth rydych yn ei feddwl trwy gwblhau'r arolwg ymateb ar-lein.

Os nad ydych yn gallu defnyddio'r [arolwg ymateb ar-lein](#), neu rydych yn dymuno derbyn y ddogfen hon neu'r arolwg ymateb mewn diwyg arall, mae croeso i chi:

e-bostio: Adolygiad.Saethu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

neu ffonio: 0300 065 0300.

6. Sut y byddwn yn defnyddio eich ymateb?

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ein gwefan ac yn defnyddio eich safbwyntiau i helpu i lunio ein datganiad sefyllfa newydd ynghylch y defnydd o arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.

Os gwnaed ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn cyhoeddi enw'r sefydliad hwnnw. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau unigolion sy'n ymateb.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os byddwch yn gofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, efallai y byddai'n dal i fod yn ofynnol i ni ddarparu crynodeb ohono.

Wrth gwblhau'r arolwg ymateb ar-lein neu gyflwyno eich ymateb yn ysgrifenedig, sicrhewch eich bod yn nodi, pan ofynnir i chi wneud hynny, a ydych yn dymuno i'ch ymateb aros yn gyfrinachol.